

Llefaru eich geiriau eich hunain

“Lleda gan hynny dy adain dros dy lawforwyn, canys fy nghyfathrachwr i ydwyt ti.” (adn. 9) (B.W.M.)

Beth am ddarlenn Ruth 3:1–18 ac yna myfyrio

Gwelsom mai ar sail cwyn y cafodd Naomi ei chynnwys yn stori'r iachawdwriaeth sy'n cael ei hamlinellu ar ein cyfer yn Llyfr Ruth. Heddiw gofynnwn: Sut ddaeth Ruth i mewn i'r stori? *Drwy wneud ei dymuniad yn eglur.* Erbyn hyn, roedd Naomi wedi rhoi gwybod i Ruth fod Boas yn berthynas agos i'r teulu ac yn un oedd â hawl i adfer sefyllfa'r teulu yma yn ôl arferion Iddewig y cyfnod – cyfathrachwr ydy'r term Cymraeg, *kinsman-redeemer* a geir yn Saesneg. Mae'r un syniad sydd wedi bodoli ymhlith rhai teuluoedd Cymreig lle mae un yn gyfrifol am weithredoedd gweddill y teulu yn cyfleu peth o gyfrifoldeb Boas tuag at y teulu bach hwn. Roedden nhw'n gwybod felly, dim ond iddyn nhw drin y sefyllfa'n iawn, bydden nhw'n cael eu hachub rhag tlodi a byddai gan Ruth ŵr. Fel hyn mae Naomi yn hyfforddi Ruth: “Wedi i ti ymolchi ac ymbincio a rhoi dy wisg orau amdanat, dos at y llawr dyrnu... Pan â i orwedd, sylwa ymhle y mae'n cysgu... dos a chodi'r dillad o gwmpas ei draed... fe ddywed ef wrthyth beth i'w wneud.” (3: 3–4).

Mae Ruth yn gwneud yn union fel mae ei mam-yng-nghyfraith yn ei gynnig gydag un eithriad. Dydy hi ddim yn disgwyl i Boas ddweud wrthi beth i'w wneud; yn hytrach, mae hi'n achub y blaen ac yn dweud wrth Boas beth i'w wneud: “Lleda gan hynny dy adain dros dy lawforwyn, canys fy nghyfathrachwr i ydwyt ti” (3:9). Ffordd symbolaidd oedd hyn o ofyn “Wnei di fy mhriodi i?” Mae'n bosib fod ymyrraeth Ruth yn edrych braidd yn hy, ond fel y dywedodd un esboniwr: “Dydy bod yn rhan o stori Duw ddim yn golygu gadael i bob dim ddiwydd inni'n ddistaw. Dydy o ddim yn golygu ymostwng yn fud, nac ufudd-dod dall chwaith.”

Mae 'na adegau pan mae hi'n iawn i ni lefaru ein geiriau ein hunain, nid dim ond dynwared y rhai a glywsom gan eraill. Gallwch fod yn siŵr o hyn: chewch chi mo'ch gadael allan o stori Duw am ddweud eich geiriau eich hunain sy'n dod o'r galon yn hytrach na chael eu gorfodi arnoch gan eraill. Does dim o'i le mewn gadael i'n hunain gael ein hyfforddi gan rieni, athrawon ac eraill, ond mae 'na adegau pryd y mae'n rhaid i ni fod yn barod i ofyn am yr hyn rydym ni ei eisiau – i lefaru ein llinellau ein hunain.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ex. 2:1–10; Ioan 20:24–28

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddeilliodd o Miriam yn siarad ei llinellau ei hun?
2. Beth enillodd Tomos o'i feddylfryd annibynnol?

Gweddi

Dad, gwelaf dy fod yn cydnabod creadigrwydd yn ogystal â derbyn cwyn. Dwyt ti ddim yn gwrthod y rhai sy'n cyfansoddi eu geiriau eu hunain. Ac am hynny hefyd, rwyf yn ddiolchgar iawn. Amen.